

Ymgynghoriad ar Strategaeth Tlodi Plant 2014-17

Rhagair ar Strategaeth Tlodi Plant – Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau



Cafodd strategaeth tlodi plant gyntaf y Llywodraeth Glymblaid ei gyhoeddi tair blynedd yn ôl, yng nghanol y cyfnod economaidd anoddaf am genhedlaeth. Yn dilyn y dirwasgiad byd-eang, ein her oedd trwsio economi Prydain - sy'n hanfodol nid yn unig i sicrhau dyfodol ein gwlad, ond hefyd i fywydau pobl. Wedi'r cyfan, os na fyddem yn adfer ein cyllid, y colledwyr mwyaf yn y diwedd fyddai'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas, y rhai sy'n dibynnu fwyaf ar wasanaethau cyhoeddus a chymorth y Llywodraeth er mwyn troi eu bywydau eu hunain o gwmpas.

Ers 2011, rydym wedi gwneud cynnydd gwirioneddol o ran adfer ein heconomi a chefnogi marchnad lafur cynyddol - camau sydd wedi gwneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau plant yn y broses. Erbyn hyn, mae llai o blant yn byw mewn cartrefi di-waith nag ar unrhyw adeg ers i gofnodion ddechrau, ar ôl gostwng 274,000 dan y Llywodraeth hon. Am bob rhiant sydd wedi cael swydd, mae yna blant sydd wedi ennill model rôl i'w edmygu, gan gynnig gobaith a hunanwerth, gyda dyheadau ar gyfer eu dyfodol eu hunain wedi trawsnewid. Felly hefyd lle mae cefnogaeth y Llywodraeth wedi helpu rhieni i ddianc problemau dyled neu dorri'n rhydd rhag caethiwed, neu lle mae ymyrraeth gynnar wedi cynnal amgylchedd teuluol sefydlog cariadus, gan roi'r cyfle gorau o lwyddiant eu hunain i blant.

Dyma'r math o newid bywyd sy'n gwneud gwahaniaeth parhaol i ddeilliannau plant. Yr hyn y mae record y Llywodraeth ddiwethaf yn ei gwneud yn glir yw na ellir ei gyflawni drwy drosglwyddiadau incwm yn unig. Mae'r athrawiaeth o 'dlodi ynghyd â phunt' wedi methu oherwydd ei fod yn y broses sydd yn mynd y tu hwynt i bobl - tafli arian i fudd-daliadau a chredydau treth i deuluoedd ar incwm isel ond heb ofyn a yw hynny'n gwneud gwahaniaeth go iawn i'r rheswm pam oeddent yn dlawd i ddechrau. Yn hytrach na thrin symptomau tlodi, dyma oedd yr amser i drin yr achos.

Mae'r strategaeth hon yn ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi yn ei ffynhonnell - boed yn deulu ar chwâl, methiannau addysgu, caethiwed, dyled neu ddiweithdra. Rydym yn glir bod y dasg hon yn dechrau o'r cyfnodau cynharaf ym mywyd plant. Drwy ein buddsoddiad yn y blynyddoedd cynnar a'r Premiwm Disgyblion, rydym yn benderfynol o roi'r dechrau gorau posibl i bobl ifanc, gyda theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd yn ei gweld fel y llwybr i fywyd gwell i'w plant. Drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebir gan blant difreintiedig, codi cyrhaeddiad addysgol, a pheidio â gadael unrhyw blentyn y tu ôl, gallwn dorri'r cylch dinistriol o dlodi.

Mae gwaith hefyd yn parhau i fod yn ffocws yn ein gweledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant. Drwy fynd i'r afael â'r ffactorau penodol sy'n ei gwneud hi'n anodd i rai teuluoedd tlawd weithio eu ffordd allan o dlodi, byddwn yn rhoi cyfle gwell i wneud y symudiad yn gadarnhaol iddynt. Diben ein diwygiadau lles yw sicrhau nid yw'n fwy gwerth chweil mwyach i fod ar fudd-daliadau nag y mae bod yn y gwaith, a thrwy'r Credyd Cynhwysol byddwn yn adfer nid yn unig y cymhellant i gael swydd, ond mwy na hynny i symud tuag at hunangynhaliadaeth. Wrth i deuluoedd wneud hynny, bydd cymorth i ddiogelu eu safonau byw

yn parhau i fod yn bwysig. Dyna pam yr ydym yn cymryd camau i leihau costau'r cartref - o danwydd ac ynni, i fwyd, dŵr, a thrafnidiaeth. Ar yr un pryd, drwy ehangu mynediad at gredyd fforddiadwy a chynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, rydym yn helpu rhieni i fforddio'r hanfodion sydd o bwys i'w plant.

Yn amlwg, mae mwy eto i'w wneud os ydym am wireddu'r uchelgais hwnnw. Ac i'w wneud yn realiti, mae angen gwasanaethau effeithiol sy'n ymestyn y tu hwnt i Lywodraeth ganolog yn unig. Mae'n rhaid i ni harneisio arweinyddiaeth leol ysbrydoledig ac adeiladu partneriaethau cryf ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau. Dyma pam rydym yn lansio'r ymgynghoriad hwn ar y strategaeth i glywed eich barn a defnyddio eich arbenigedd. Ein bwriad yw adnewyddu'r ysgogiad ar gyfer y camau pellach sydd eu hangen - nid yn unig gan Lywodraeth ganolog a lleol, ond felly hefyd cyflogwyr, y sectorau gwirfoddol a chymunedol. Er mwyn gwneud cynnydd ystyrlon pellach i fynd i'r afael â thlodi plant, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i drawsnewid bywydau'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas.



Y Gwir Anrhydeddus Iain Duncan Smith AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

Rhagair ar Strategaeth Tlodi Plant – Y Gweinidog Gwladol dros Ysgolion



Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn flaenoriaeth allweddol i unrhyw Lywodraeth. Mewn economi datblygedig fel ni, ni allwn sefyll yn ôl pan fydd plant dan anfantais nid yn unig yn dioddef effeithiau tlodi heddiw, ond maent yn bedair gwaith yn fwy tebygol o fod yn oedolion tlawd. Mae angen gweithredu nawr i sicrhau nad yw'r lle rydych yn dechrau mewn bywyd yn penderfynu lle y byddwch yn gorffen eich bywyd.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant ddrafft yn datgan yn glir ac yn drylwyr ymrwymiad y Llywodraeth Glymblaid i wella amodau ar gyfer plant tlawd a thorri'r cylch hwn o anfantais. Rydym yn cymryd ymagwedd drwyadl yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar atebion cynaliadwy sy'n gweithio yn yr hirdymor ac yn gwneud ein cymdeithas yn decach.

Gwyddom fod addysg yn allweddol; mae plant tlawd sy'n gwneud yn dda yn yr ysgol yn llawer llai tebygol o fod yn oedolion tlawd. Ac rydym yn gwneud cynnydd. Dan y Llywodraeth hon, mae plant tlawd yn gwneud yn well nag erioed yn yr ysgol - mae cyfran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim sydd wedi ennill 5 gradd TGAU da wedi cynyddu o 31% yn 2010 i 38% yn 2013.

Ond mae mwy na 6 o bob 10 o blant ar brydau ysgol am ddim yn parhau i fethu â sicrhau graddau da. Rydym yn benderfynol o godi cyrhaeddiad pob un o'n plant a helpu'r tlotaf dal i fyny ac rwyf yn falch o'r camau pendant y mae'r Glymblaid wedi eu cymryd. Ers 2011, rydym wedi buddsoddi £3.75 biliwn yn y Premiwm Disgyblion fel y gall ysgolion sicrhau bod eu plant tlawd yn cyrraedd eu potensial llawn.

Y flwyddyn nesaf, bydd y Premiwm Disgyblion yn werth £2.5 biliwn. Mae hyn yn golygu y bydd plant tlawd sy'n dlawd drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol bellach yn cael £14,000 ychwanegol i roi hwb i'w cyrhaeddiad. Drwy weithio'n agos ag Ofsted byddwn yn gwneud y gorau o effaith y buddsoddiad hwn a sicrhau bod ysgolion yn gyfrifol ac yn atebol o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion difreintiedig.

Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad yn y blynyddoedd cynnar ac mae ein Strategaeth drafft yn nodi ffocws y Llywodraeth hon ar addysg gynnar. Ar ben y ddarpariaeth bresennol, rydym wedi ymrwymo £760m i ddarparu lleoedd addysg blynyddoedd cynnar a ariennir ar gyfer 260,000 o blant 2 oed dan anfantais.


Ymhellach, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi o fis Medi eleni ymlaen, bydd pob plentyn mewn ysgol fabanod yn cael prydau ysgol am ddim. Bydd hyn yn golygu y gall 100,000 o blant tlawd ychwanegol fwyta pryd o fwyd maethlon am ddim, gan ddod â phrydau ysgol am ddim i lawer o fabanod sy'n byw mewn tlodi am y tro cyntaf. Mae hwn yn fuddsoddiad mawr yn ein holl blant ifanc a bydd yn trin y tlotaf yn yr un modd.

Ar draws y Llywodraeth, rydym yn benderfynol o gefnogi teuluoedd sy'n gweithio'n galed ac yn mynd i'r afael â'r profiad o blant mewn tlodi nawr. Rydym wedi torri treth incwm ar gyfer y rhai sydd ar yr isafswm cyflog gan bron i ddwy ran o dair ac rydym yn lleihau ymhellach y gost o fyw i

deuluoedd sydd ar incwm isel gyda mwy o gymorth ar gyfer tai fforddiadwy, llai o filiau cyfleustodau a chap ar fenthycwyr diwrnod cyflog.

Ni ddylai unrhyw blentyn fyw mewn tlodi. Ni ddylai unrhyw blentyn ddod yn oedolyn tlawd am y rheswm syml bod eu rhieni yn dlawd. Addysg yw'r arf y mae'n rhaid i ni ei defnyddio i dorri'r cylch hwn.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am ein dull o weithredu ac rydym yn gobeithio y byddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad. Rydym yn awyddus i gydweithio gyda chi i adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach ar gyfer ein holl blant.

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'David Laws', written in a cursive style. Below the signature is a solid black horizontal line.

Y Gwir Anrhydeddus David Laws AS
Y Gweinidog Gwladol dros Ysgolion

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r Llywodraeth hon yn canolbwyntio ar dorri'r cylch anfantais – na ddylai lle rydych yn dechrau mewn bywyd benderfynu ble y byddwch yn gorffen. Mae terfyn ar dlodi plant yn rhan hanfodol o'r weledigaeth hon. Rydym yn parhau i ymrwymo'n gadarn i'n cytundeb Glymblaid i gynnal y nod o ddileu tlodi plant yn y DU erbyn 2020.
2. Mae tlodi plant yn fater o bwys. Er bod rhai plant yn ffynnu er gwaethaf y tlodi y maent yn tyfu i fyny ynddo, i lawer o blant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi gall olygu plentyndod o ansicrwydd, tangyflawni yn yr ysgol ac ynysu oddi wrth eu cyfoedion. Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn rhy aml yn dod yn rhieni'r genhedlaeth nesaf o blant sy'n byw mewn tlodi.
3. Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd rhwng 2014-17 i fynd i'r afael â thlodi drwy:
 - Cefnogi teuluoedd i mewn i **waith** a chynyddu eu henillion,
 - **Gwella safonau byw**, ac
 - Atal plant tlawd rhag tyfu'n oedolion tlawd drwy godi eu **cyrhaeddiad addysgol**.
4. Mewn sawl ardal, rydym wedi **gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â thlodi plant**. Er enghraifft, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd, mae cyflogaeth wedi cynyddu o 1.3 miliwn ers 2010¹ ac ers 2010 mae nifer y plant o dan 16 oed mewn cartrefi di-waith wedi gostwng 274,000². Mae plant tlawd yn gwneud yn well nag erioed yn yr ysgol, gyda chyfran y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael pump TGAU da gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn cynyddu o 31% yn 2010 i 38% yn 2013.³
5. Fodd bynnag, mae angen i ni wneud mwy. Er enghraifft, mae'r risg y bydd plant mewn aelwydydd sy'n gweithio sydd mewn tlodi wedi newid llawer dros ddegawd⁴ y gorffennol a phlant tlawd yn dal i wneud yn waeth yn yr ysgol na'u cyfoedion.⁵

Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi

6. Nodir y Strategaeth hon pa gamau a gymerwn o 2014-2017 i fynd i'r afael â thlodi plant, gan adeiladu ar ein Strategaeth 2011. Credwn yn gryf y ffordd i roi terfyn ar dlodi yw **drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi plant nawr ac ar draws cenedlaethau** fel y gallwn drawsnewid bywydau.

¹ Labour Force Survey Oct-Dec 2013

² ONS (2013b)

³ DfE (2014)

⁴ DWP (2013c)

⁵ DfE (2014)

Gwaith

7. Mae'r dystiolaeth yn glir mai achosion sylfaenol deuluoedd mewn tlodi yw segurddod neu enillion isel (naill ai ddim yn gweithio digon o oriau neu ddim yn cael eu talu digon). Mae plant mewn teuluoedd di-waith dair gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi cymharol na theuluoedd lle mae o leiaf un rhiant sy'n gweithio.⁶ Ac o'r 1.5 miliwn o blant mewn teuluoedd gwaith gwael yn 2011/12 dim ond 100,000 yn unig sydd mewn teuluoedd lle'r oedd yr holl rieni mewn gwaith llawn amser.⁷
8. Yn 2014-17 byddwn yn cefnogi teuluoedd i mewn i waith a chynyddu enillion drwy:
- Creu swyddi – Mae bron 1.7 miliwn o swyddi sector preifat wedi cael eu creu ers 2010⁸ a byddwn yn parhau i helpu busnesau i dyfu, er enghraifft drwy alluogi cwmnïau maint bach a chanolig i gael mynediad at gredyd, buddsoddi mewn seilwaith a lleihau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol i rai busnesau
 - Cefnogi teuluoedd i mewn i waith - cefnogaeth ar gyfer y rhai sydd allan o waith drwy'r Rhaglen Waith, cynllun Help i Weithio a chefnogaeth hyblyg drwy'r Ganolfan Byd Gwaith, cymorth i deuluoedd â phroblemau lluosog drwy'r rhaglen Teuluoedd Cythryblus a chynyddu disgwyliadau gwaith er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gallu gweithio yn gweithio.
 - Gwneud i waith dalu - cael cymhellion gwaith cliriach drwy gyflwyno Credyd Cynhwysol - a fydd yn codi hyd at 300,000 o blant allan o dlodi,⁹ diwygio'r system les, rhoi cymhorthdal gofal plant a darparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol fabanod.
 - Mynd i'r afael â chyflog isel - gorfodi'r isafswm cyflog a pharhau i godi teuluoedd ar incwm isel allan o'r system dreth.
 - Helpu pobl i symud ymlaen i swyddi gwell sy'n talu mwy - gwella cymwysterau, adolygu contractau oriau sero a darparu cymorth ychwanegol i symud i swyddi gwell.
9. Byddwn yn mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae rhai teuluoedd yn eu hwynebu i **weithio**. Mae'r dystiolaeth yn glir bod yna nodweddion teuluol allweddol sy'n ei gwneud yn anodd i rai teuluoedd tlawd weithio eu ffordd allan o dlodi. Y pum ffactor allweddol yw diweithdra hirdymor, ennill cymwysterau isel, magu plant ar eich pen eich hun, cael tri neu fwy o blant i ofalu amdanynt, a chael profiad o iechyd gwael. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy:
- Gwella cymwysterau rhieni drwy brentisiaethau oedolion, buddsoddi mewn llythrennedd a rhifedd sylfaenol a helpu rhieni drwy'r Gwasanaeth Gyrfaedd Cenedlaethol.
 - Cymorth wedi'i deilwra ar gyfer teuluoedd rhiant sengl i oresgyn y rhwystrau i waith maent yn eu hwynebu. Mae hyn yn cynnwys cymorth ychwanegol drwy Gredyd Cynhwysol fel y gallant gadw mwy o'u henillion cyn i'w budd-daliadau dechrau cael ei dynnu'n ôl, cymorth pwrpasol gan ein gwasanaethau cyflogaeth a sicrhau eu bod yn dechrau paratoi ar gyfer gwaith pan fydd eu plentyn ieuengaf yn dair oed.

⁶ DWP (2013c)

⁷ Cyfrifiad o gyhoeddiad HBAI DWP 2011/12

⁸ Arolwg y Farchnad Lafur Chwe-Ebrill 2010 – Aws-Hyd 2013

⁹ Dadansoddiad mewnol DWP, gweler ôl-nodyn i am fanylion, tudalen 48.

- Sicrhau bod rhieni o deuluoedd mwy o faint yn gwybod faint yn well eu byd y byddent mewn gwaith neu'n gweithio mwy o oriau, gan annog gweithio hyblyg fel y gall rhieni o deuluoedd mwy o faint ddod o hyd i swydd a chynyddu mewn swyddi sy'n addas ar gyfer eu hanghenion hwy ac anghenion eu teulu ac yn gweithio i godi lefelau sgiliau sylfaenol rhieni o deuluoedd mwy o faint.
- Helpu rhieni tlawd sydd â chyflyrau iechyd gwael i weithio drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra fel y nodir yn ein Strategaeth Cyflogaeth Anabledd ac Iechyd, yn gliriach, rheolau budd-daliadau mwy hyblyg, cefnogaeth i gyflogwyr i gyflogi rhieni â chyflyrau iechyd a chymorth i rieni sy'n dioddef problemau iechyd meddwl.

Safonau byw

10. Byddwn yn gweithio i gefnogi **safonau byw teuluoedd incwm isel**. I'r teuluoedd hynny sy'n gallu gweithio, cynyddu eu hincwm drwy waith yw'r ffordd orau i ddiogelu eu safonau byw. Ond ar gyfer y teuluoedd hynny nad ydynt yn gallu gweithio byddwn yn parhau i ddarparu rhwyd ddiogelwch lles. Yn 2011/12, gwnaethom wario tua £20 biliwn ar daliadau i aelwydydd heb waith â phlant.¹⁰
11. Byddwn yn **lleihau costau** drwy:
 - Hyrwyddo cystadleuaeth ar draws pob maes i ganiatáu i fusnesau dyfu a chael mynediad i farchnadoedd newydd, i wthio prisiau i lawr ac ansawdd i fyny.
 - Lleihau costau tanwydd drwy leihau'r bil ynni nodweddiadol o tua £50 ar gyfartaledd yn 2014/15. Rydym hefyd yn rhoi i rai teuluoedd incwm isel arian oddi ar eu biliau bob blwyddyn drwy ymestyn y Disgownt Cartref Cynnes i 2015/16. Rydym hefyd yn lleihau maint y tanwydd sydd ei angen arnynt i dalu amdano drwy wneud eu cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni.
 - Lleihau costau dŵr drwy gapio biliau teuluoedd incwm isel sydd â thri neu fwy o blant ar fesurydd dŵr a hyrwyddo tariffau cymdeithasol sy'n darparu costau rhatach i deuluoedd ar incwm isel.
 - Lleihau costau bwyd ar gyfer teuluoedd incwm isel drwy Dalebau Cychwyn Iach ar gyfer plant ifanc, prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol fabanod, clybiau brechwast mewn ardaloedd difreintiedig a ffrwythau a llysiau am ddim yn yr ysgol ar gyfer plant ysgolion cynradd.
 - Lleihau costau cludiant ar gyfer teuluoedd incwm isel drwy gludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim, gan gyfyngu cynnydd ym mhrisiau'r trenau a chyflwyno tocynnau mwy hyblyg, a chadw pris petrol i lawr drwy rewi treth tanwydd ers 2011, gan arbed modurwr nodweddiadol £680 dros y Senedd hon.
 - Mynd i'r afael â'r cynnydd mewn costau tai drwy gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy - rydym yn buddsoddi £11.5 biliwn i gael Prydain i adeiladu mwy o gartrefi yn y pedair blynedd hyd at 2015, a byddwn yn gwario £5.1 biliwn pellach o 2015-2018.

¹⁰ Yn 2011/12, gwnaethom wario £45 biliwn ar daliadau allan o waith a budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm a chredydau treth i deuluoedd sydd â phlant (oddeutu £20 biliwn wedi ei wario ar daliadau i aelwydydd di-waith ac o gwmpas £25 biliwn ar daliadau i aelwydydd sy'n gweithio). I gael rhagor o fanylion am y cyfrifiad hwn gweler ôl-nodyn ii, tudalen 48.

- Cynyddu mynediad i gredyd fforddiadwy drwy ehangu undebau credyd, diogelu defnyddwyr drwy gracio i lawr ar fenthycia diwrnod cyflog (gan gynnwys gosod terfyn ar y gost o gredyd) a mynd i'r afael â phroblemau dyled drwy roi cyngor cyllidebu drwy Gredyd Cynhwysol a'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar gyfer y rhai mewn trafferth.

Addysg

12. Byddwn yn **torri'r cylch o blant tlawd yn mynd ymlaen i fod yn oedolion tlawd**. Mae plant tlawd yn bedair gwaith fwy tebygol o fod yn oedolion tlawd na phlant eraill.¹¹ Byddwn ond yn llwyddo i ddileu tlodi plant os byddwn yn rhoi'r gorau i'r cylch hwn. Codi cyrhaeddiad addysgol plant tlawd yw'r allwedd i wneud hyn. Byddwn yn parhau i godi **cyrhaeddiad addysgu** drwy:

- Cynyddu nifer y plant tlawd sy'n cael addysg cyn-ysgol o safon gyda 15 awr am ddim ar gyfer pob plentyn tri a phedwar oed ac ar gyfer plant dwy oed o deuluoedd incwm isel, cael staff a chymwysterau gwell mewn lleoliadau cyn-ysgol a chael cwricwlwm blynyddoedd cynnar symlach.
- Sicrhau bod plant tlawd yn gwneud yn well yn yr ysgol drwy roi £14,000 ychwanegol i ddisgyblion dan anfantais drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol - ymrwymiad o £2.5 biliwn y flwyddyn drwy'r Premium Disgyblion¹². Rydym yn cynnal ysgolion i gyfrif am ba mor dda y mae plant tlawd yn ei wneud a gwneud yn siŵr bod gennym athrawon gwell. Byddwn hefyd yn sefydlu cymorth i blant tlawd sy'n disgyn y tu ôl i dargedau, gyda £500 am bob plentyn sydd y tu ôl yn 11 oed ac Ysgolion Haf i baratoi plant tlawd ar gyfer yr ysgol uwchradd.
- Cynorthwyo plant tlawd i aros mewn addysg ôl-16 i gael y sgiliau a'r cymwysterau cywir a'u helpu i symud i mewn i waith drwy hyfforddiant "yn y gwaith", prentisiaethau a chyngor ar yrfaeodd gwell.

13. Byddwn hefyd yn **mynd i'r afael â'r rhwystrau mae plant tlawd yn ei wynebu i wneud yn dda yn yr ysgol**. Mae'r dystiolaeth yn glir bod yna nodweddion teuluol allweddol sy'n ei gwneud yn anodd i rai plant tlawd gwneud yn dda yn yr ysgol. Y chwe ffactor allweddol yw amgylchedd gwael yn y cartref, sgiliau "cymeriad" heb eu datblygu digon (e.e. sgiliau cymdeithasol, hunan-barch, gwydnwch), rhiant yn sâl, plentyn sy'n dioddef afiechyd eu hunain, rhieni sydd â chymwysterau isel ac incwm y teulu. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn drwy:

- Helpu rhieni darparu amgylchedd gorau posibl yn y cartref drwy ddogsbartiadau magu plant a llyfrau am ddim.
- Rhoi mwy o ryddid i ysgolion fel y gallant ddatblygu sgiliau "cymeriad" plant.
- Helpu rhieni sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl (gan gynnwys drwy'r gwasanaeth ymwelydd iechyd estynedig), buddsoddi mewn triniaeth dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol a chefnogi gofalwyr ifanc.
- Cynyddu cefnogaeth i blant ag Anghenion Addysgol Arbennig fel y nodir yn y Mesur Plant a Theuluoedd a'n cod ymddygiad newydd.

¹¹ Blanden, J. and Gibbons, S. (2006)

¹² Byddwn yn buddsoddi £2.5 biliwn y flwyddyn erbyn 2014/15. Bydd yr arian yn cynyddu o £900 y disgybl yn 2013/14 i £1,300 yn 2014/15 ar gyfer disgyblion cynradd a £935 ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd.

Cydweithio gydag eraill

14. Ni all gweithredu gan y llywodraeth ganolog yn unig ddileu tlodi plant:

- Mae gan gyflogwyr rôl allweddol i'w chwarae, er enghraifft talu cyflogau da, cefnogi gweithio hyblyg, gan gynnig hyfforddiant a chymwysterau cydnabyddedig a helpu eu staff i symud ymlaen yn y gwaith.
- Mae lle bydd pobl yn byw yn holl bwysig. Mae pob ardal leol yn wynebu her wahanol wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Mae gan asiantaethau lleol yr hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i deilwra eu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol, er enghraifft, cefnogi cyflogaeth a sgiliau a theilwra gwasanaethau addysg, iechyd a chymdogaeth.
- Mae gan y gweinyddiaethau datganoledig eu cyfrifoldebau eu hunain am dlodi plant ac maent yn cymryd camau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli iddynt, er enghraifft addysg.

Camau Nesaf

15. Byddem yn croesawu eich barn ar y Strategaeth ddrafft hon. Rydym am wybod beth sy'n gweithio'n dda yn lleol, beth arall y gellir ei wneud a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i ddileu tlodi plant. I gael gwybod eich barn, rydym wedi gosod cyfres o gwestiynau ar ddiwedd y Strategaeth. A fydddech cystal ag ateb drwy lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein yn: www.education.gov.uk/consultations. Bydd eich ymateb yn llywio ein Strategaeth Tlodi Plant 2014-17 terfynol i'w osod ger bron y Senedd yn 2014.